

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 08.01.2020**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cynghorwyr; Arwel Nicholas, Dylan Jones, Danny Davies, Derick Lock, Eirion Evans, Pamela Jones, Gethin Edwards, Cynghorydd Sir, Irfon Jones.**  
**Ymddiheuriadau: Elfed Davies**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Penderfyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir - <b>EE &amp; GE</b>	
Materion yn Codi	<p><b>Bont y Railwë</b> -Derbyniwyd ateb oddi wrth Darren King a oedd yn dweud i'r bont fod yn gyfrifoldeb Eiddo Corfforiaethol y Cyngor Sir.</p> <p><b>Priffyrdd</b> - Clerc wedi gofyn am gyfarfod gyda Richard Waters i drafod gosod 'chicane' ar yr heol wrth ymyl mynedfa'r Cae Chwarae ac i drafod gosod llwybyr troed ar hyd y darn heol sydd yn ymestyn o Gapel Caersalem i Font y Railwë.</p> <p><b>Goleuadau</b> - Angen eglurhad oddi wrth y Cyngor ynglyn a phwy sydd berchen y goleuadau rhwng gwaelod Rhiw Cŵpers a'r Bont Newydd, a'r goleuadau yn Nant yr Ynys.</p> <p><b>Bont y Ffatri</b> - Clerc wedi cysylltu gyda unigolyn yn Adran Priffyrdd, i holi a fydd yna font newydd yn cael ei osod yno eleni. <b>AN</b> yn dweud iddo siarad gyda dau Beiriannydd oedd yn archwilio'r bont, a dywedwyd wrtho y byddai yna font newydd yn cael ei adeiladu eleni ac y byddai'r gwaith yn cymeryd 6 mis!</p>	
Gohebiaeth	<p><b>Swyddfa Archwilio Cymru</b> - Pentwr o lythyron wedi eu derbyn, a'r Cadeirydd a'r Clerc yn eu darllen i'r Cyngor. Y Clerc a'r Cadeirydd wedi derbyn gorchymyn i ymddangos mewn cyfarfod gyda'r SAC. Y Cadeirydd yn dweud na allai fynychu, gan nad ydi'r iechyd yn caniatáu.</p> <p><b>Gwasanaeth Coffa Mis Mai</b> - methu a gwneud trefniadau heb wybod beth fydd costau SAC.</p> <p><b>Bioamrywiaeth a Dycnwch</b> - Clerc i ddanfon gwybodaeth at y Pwyllgor Lles.</p> <p><b>Te'r Frenhines</b> - Cadeirydd ddim am rhoi ei enw ymlaen. Pe bai'r cyfle yn dod, fyddde'r iechyd ddim yn caniatáu iddo fynd.</p> <p><b>Jason Lawday</b> - Yn gweitho i'r Cyngor Sir ar Lwybrau Cyhoeddus ac am weld Cofnodion y gorffennol sydd ym meddiant y Clerc ar hyn o bryd, tan i'r Archifdy newydd gael ei orffen. Yn ymchwilio i llwybyr ceffyl Bwlch yr Onnen.</p>	
Cynllunio	<p><b>Pantiouar</b>, sied amaethyddol - dim gwrthwynebiad</p> <p><b>Waun Wern</b>, sied amaethyddol - dim gwrthwynebiad.</p>	

Elusennau	Penderfynnwyd peidio cefnogi unrhyw elusen/achos teilwng oherwydd yr anghydfod presennol gyda SAC.	
Materion Ariannol	<b>Gosod y Praesept</b> - Trafodwyd y Cyllyd, ac nid oedd gan neb sylwadau arno. Ni osodwyd y Praesept oherwydd y bygythiad byddai SAC yn erlyn y Cyngor am osod Cyllyd Anghyfreithlon. <b>Cyfrifon</b> - Clerc wedi derbyn cymorth i gwblhau'r ddwy Ffurflen Archwilio; 2017-18 a 2018-19. Pawb o'r unfryd yn cytuno eu bod yn gywir.	
UFA	<b>GE</b> - Dim <b>PJ</b> - Sibrydion byddai'r Ysgol Gynradd yn cau. IJ yn amau fyddai hynny'n digwydd oherwydd yr holl gamau fyddai rhaid cymeryd cyn gwneud penderfyniad. <b>EE</b> - Dim <b>DL</b> - Dŵr yn rhedeg ar hyd yr heol oherwydd rhwystyr yn y cwlfert. EE yn dweud bod angen cysylltu gyda John Pearce, Adran Priffyrdd. Tarddiad y broblem yw'r ffosydd sydd wedi llenwi ar ymyl Rhiw Llandre. <b>IJ</b> - Dim <b>DJ</b> - Arwydd pen heol Nebo wedi diflannu! Cyflwr gwael ar yr heol rhwng Lanfryn a Phenygraig. <b>DD</b> - Dim <b>AN</b> - Arwydd pen heol Ffynnonhenri wedi diflannu!	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....